

Annwyl Cyfarwyddwr

## Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedwar egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan ein gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn. Roedd y gweithgarwch hwn yn cynnwys y canlynol:

- Arolygu gwasanaethau i oedolion hŷn yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ystod mis Mawrth 2019
- Hunanwerthusiad y Gwasanaethau Oedolion
- Ymweliad â'r Uned Gomisiynu ym mis Rhagfyr 2018
- Adolygiad o'r tîm Tyfu'n Oedolion ym mis Mawrth 2019
- Cyfarfod her am blant sy'n derbyn gofal yn 2018

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Caerfyrddin  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Heol Picton  
Caerfyrddin  
SA31 3BT  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
☎ 0872 437 7303  
✉ [CIWLocalAuthority@gov.wales](mailto:CIWLocalAuthority@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Carmarthen Office  
Welsh Government  
Government Buildings  
Picton Terrace  
Carmarthen  
SA31 3BT  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod Adolygu Perfformiad blynyddol ar 23 Ebrill 2019.

### Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Mae tîm uwch-reolwyr newydd wedi bod yn y gwasanaeth gofal cymdeithasol am y 12 mis diwethaf. Mae'r gyfarwyddiaeth bellach yn elwa ar arweinyddiaeth sefydlog gyda gweithlu medrus, uchel ei gymhelliant sy'n cael ei gefnogi ac sy'n deall ac yn rhannu gweledigaeth yr awdurdod lleol.

Mae ymgynghoriad ar waith ar hyn o bryd mewn perthynas ag ailfodelu'r gwasanaethau oedolion. Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth glir ar gyfer cyflwyno gwasanaethau modern a chynaliadwy gan gefnogi pobl i fyw'n annibynnol. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol gydag asiantaethau eraill yn hanfodol i sicrhau y bydd pobl yn derbyn gwasanaethau modern, cynaliadwy ac o safon a fydd yn diwallu eu hanghenion gofal a chymorth a aseswyd ac yn ateb y galw nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y newid arfer gydag AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/2020 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Mae'n debygol y bydd ein gweithgaredd â ffocws gyda'r awdurdod lleol yn cynnwys rhai cwestiynau dilynol i ganfyddiadau'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a'r rheini sydd wedi gadael gofal yn y gwasanaethau plant; bydd ein gwaith yn y gwasanaethau oedolion yn canolbwyntio ar bobl dros 65 oed yn y gymuned a gwasanaethau dydd o bosibl.

Mae ymyrryd yn gynnar ac atal ac arfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wedi bod yn her i rai aelodau o'r staff. Bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod strategaeth gyfathrebu glir ar waith sy'n cefnogi egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Ym mis Rhagfyr 2018, cynhaliodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi arolygiad llawn o Wasanaeth Troseddwy'r Ifanc Bae'r Gorllewin. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 28 Mawrth 2019 a barnwyd bod y gwasanaeth yn annigonol. Ar 1 Ebrill 2019, daeth y Gwasanaeth Troseddwy'r Ifanc ar draws Bae'r Gorllewin i ben ac mae Castell-nedd Port Talbot wedi dychwelyd i wasanaeth ar wahân ar gyfer Troseddwy'r Ifanc ac Ymyrryd yn Gynnar. Mae gwasanaeth newydd Castell-nedd Port Talbot yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn gyfrifol am gyflwyno'r cynllun gweithredu lleol mewn perthynas â'r meysydd pryder perthnasol a nodwyd yn yr adroddiad ar yr arolygiad.

Mae Uned Ddiogel Hillside wedi cael ei hintegreiddio'n llawn yn y gwasanaethau plant i sicrhau bod proses fwy cadarn ar gyfer monitro'r gwasanaeth yn dilyn yr adolygiad o Hillside gan y Gwasanaeth Cadw Pobl Ifanc a'r hysbysiadau diffyg cydymffurfio a roddwyd i'r gwasanaeth gan ein tîm rheoliadol. Wrth ymdrin â'r materion hyn, mae'r awdurdod yn parhau i gyflwyno ei gynllun gweithredu gyda'r Gwasanaeth Cadw Pobl Ifanc gan wella'r

prosesau llywodraethu a sicrhau ansawdd er mwyn hyrwyddo llesiant a diogelwch y bobl ifanc. Mae'r holl ofynion cyfreithiol mewn perthynas ag AGC wedi'u bodloni.

Mae gan yr awdurdod lleol fframwaith sicrhau ansawdd cadarn sydd wedi'i ymgorffori yn arferion y gwasanaeth plant. Fel rhan o'r fframwaith, mae'r awdurdod lleol yn casglu gwybodaeth gan blant a theuluoedd am eu barn ar y gwasanaethau maent yn eu derbyn, a chynhelir archwiliadau thematig a datblygir safonau arfer yn unol â rhaglen archwilio sy'n cynnwys rheolwyr tîm ac ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n cyfarfod yn fisol. Caiff adborth o archwiliadau ei rannu â'r staff drwy grŵp gwella arfer ac mae gan bob ymarferydd y cyfle i ddylanwadu ar ddatblygu arfer. Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod yr un lefel gadarn o sicrhau ansawdd sydd yn y gwasanaethau oedolion yn cael ei hymgorffori mewn arfer.

- Pobl

Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn datblygu integreiddio rhwng y gwasanaethau plant a phobl ifanc a'r gwasanaethau oedolion. Mae hyn wedi cynnwys datblygu darpariaeth "drws ffrynt" a rennir (Pwynt Cyswllt Unigol) a fydd yn cysoni prosesau rhwng y ddau wasanaeth. Mae cyd-leoli'r timau ym mis Ionawr 2019 eisoes yn dangos canlyniadau cadarnhaol gyda'r ddau dîm amlasiantaeth yn gweithio'n agosach, yn rhannu gwybodaeth yn amserol ac yn datblygu gwell dealltwriaeth o rolau'r naill a'r llall. Mae datblygiadau pellach yn y maes hwn yn cynnwys datblygu ffurflen atgyfeirio safonedig ar gyfer y ddau wasanaeth.

Yn y gwasanaethau oedolion yn ystod yr arolygiad, gwelsom waith yn cael ei wneud gan Gydlynwyr Ardaloedd Lleol sy'n cynnig pwynt cyswllt unigol hygyrch a lleol i bobl a all fod yn agored i niwed oherwydd oedran, anabled, salwch meddwl neu ynysu cymdeithasol. Clywsom am lawer o enghreifftiau o'u gwaith yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl. Dyma faes y gall yr awdurdod lleol ystyried ei ehangu er mwyn cyrraedd pob cymuned yng Nghastell-nedd Port Talbot a hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol ymhellach.

Ym mis Mawrth 2019, cynhaliom weithgaredd â ffocws drwy ymweld â chynllun peilot y tîm Tyfu'n Oedolion. Mae'r tîm yn rhan o strwythur y gwasanaethau plant ond mae wedi'i gyd-leoli â'r gwasanaethau oedolion ac mae'n sicrhau bod llwybr clir i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Dangoswyd nifer o enghreifftiau i ni o'r ffordd roedd y tîm wedi gweithio i wella canlyniadau i bobl ifanc mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo annibyniaeth drwy ddatblygu cydberthnasau gwaith ag asiantaethau partner, megis tai ac addysg. Gan y cytunwyd i estyn y cynllun peilot, byddwn yn dychwelyd i adolygu'r prosiect yn ystod y 12 mis nesaf.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn hyfforddiant gwasanaeth cyfan i'r staff mewn perthynas ag arfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r dull gweithredu a rennir hwn wedi helpu staff i weithio'n fwy effeithiol gyda theuluoedd gan eu cefnogi i nodi'r hyn sydd o bwys iddynt a'r hyn yr hoffent ei weld yn digwydd.

Mae'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n helpu teuluoedd i nodi'n glir yr hyn yr hoffent iddo ddigwydd a nodi canlyniadau er mwyn cyflawni newid cadarnhaol. Gwelsom fod arfer da yn cael ei ddefnyddio gan ymarferwyr wrth integreiddio'r Tîm Cefnogi Gweithredu Dros Deuluoedd (FAST), y Tîm Cefnogi Teuluoedd Dwys (IFSS) a'r gwasanaeth Niwed Cudd. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar risgiau blaenoriaeth allweddol fel bod gan deuluoedd ac asiantaethau ddealltwriaeth a rennir o'r hyn sydd angen digwydd i wneud y newidiadau yr hoffent eu gwneud a gan ddefnyddio cryfderau'r teulu i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd.

Yn y gwasanaethau plant, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn parhau'n sefydlog gyda gostyngiad o 6% yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod i dderbyn gofal. Mae nifer y plant sy'n cael eu rhoi gyda rhieni dan drefniadau cyfreithiol wedi haneru yn y 4 blynedd diwethaf. Cawsom wybod bod cael tîm penodol i gefnogi plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal wedi helpu'r awdurdod lleol i gefnogi plant i ddychwelyd at eu teuluoedd a chefnogi plant i aros gyda'u rhieni neu berthnasau.

Mae'r awdurdod lleol wedi cydnabod bod angen adolygu'r prosesau i ddiogelu oedolion a sicrhau bod trefniadau sicrhau ansawdd wedi'u hymgorffori mewn arfer. Bydd penodi rheolwr diogelu newydd ar gyfer y gwasanaethau oedolion a phlant yn datblygu dull gweithredu ar y cyd ar gyfer diogelu. Byddwn yn ailedrych ar y maes hwn yn ystod y flwyddyn nesaf fel rhan o weithgaredd â ffocws.

Yn y gwasanaethau oedolion mae pwysau'n parhau oherwydd gwendidau yn y sector gofal cartref lle mae heriau recriwtio ac anallu i ddarparu pecynnau gofal yn brydlon yn cael effaith negyddol ar gyflwyno gwasanaethau. Wrth fynd i'r afael â'r mater hwn, mae'r awdurdod lleol wedi adolygu ei wasanaeth gofal cartref ac ailalluogi mewnol.

Cawsom wybod am y datblygiadau mewn gweithio ar y cyd â'r bwrdd iechyd gydag adolygiad cefnogol o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Yn yr adolygiad a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd, nodwyd meysydd lle dylid gwella arfer ac effeithlonrwydd ymhellach. Roedd gwaith eisoes wedi dechrau ar ymdrin â'r meysydd hyn cyn yr arolygiad ar y cyd gan AGC ac AGIC o Wasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol i Oedolion yn 2019.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Rhoddodd yr awdurdod lleol wybod i ni am gyfleoedd newydd i ddatblygu cydberthnasau â phartneriaid ac adeiladu ar rai presennol dan bartneriaeth newydd Gorllewin Morgannwg.

Yn ystod yr arolygiad o'r gwasanaethau oedolion, gwelsom fod gweithio integredig gyda'r bwrdd iechyd wedi datblygu gan sicrhau ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth a datblygu model arfer optimaidd drwy gyflwyno gwasanaethau gofal canolraddol integredig sy'n diwallu anghenion llesiant, gofal a chymorth pobl hŷn.

Rhoddodd yr awdurdod lleol wybod i ni am y gwaith sy'n cael ei wneud gyda thai cymdeithasol a landlordiaid drwy'r Strategaeth Tai a Digartrefedd. Er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu gwario'n effeithiol ac ar wasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac yn galluogi pobl i gael tai fforddiadwy o safon, mae strategaethau wedi cael eu datblygu i wella trefniadau ar gyfer atal digartrefedd ynghyd â chynlluniau i ddatblygu unedau tai a gyflwynir drwy Grantiau Tai Cymdeithasol a chronfeydd arloesedd a gofal canolraddol. Mae hyn yn dangos maes lle ceir gweithio ar y cyd ag asiantaethau partner gan ganolbwyntio ar ddemograffeg newidiol Castell-nedd Port Talbot.

### Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu wedi'i threfnu ar gyfer 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Bydd AGC yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019 gan ganolbwyntio ar yr hunanwerthusiad o waith atal a gwaith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabwliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/2020 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Mae'n debygol y bydd ein gweithgaredd â ffocws gyda'r awdurdod lleol yn cynnwys rhai cwestiynau dilynol i ganfyddiadau'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a'r rheini sydd wedi gadael gofal yn y gwasanaethau plant; bydd ein gwaith yn y gwasanaethau oedolion yn canolbwyntio ar bobl dros 65 oed yn y gymuned a gwasanaethau dydd o bosibl.

Efallai y bydd hyn yn newid yn sgil materion sy'n dod i'r amlwg.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Sharon Eastlake  
**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro**  
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.  
SAC  
AGIC  
Estyn